

# ADFYWIO TAI

## Benthyciad i Berchen-feddiannydd

Cadw eiddo yn gynnes, saff a diogel





**Mae'r daflen hon er arweiniad yn unig.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:**

Thîm Grantiau Adfywio

Rhif ffôn:- 01352 703460/62

**GWASANAETH ADFYWIO TAI**

Cyngor Sir y Fflint

Ty^ Dewi Sant

Parc Dewi Sant

Ewlo

CH5 3FF

[home.loans@flintshire.gov.uk](mailto:home.loans@flintshire.gov.uk)

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio cynllun Benthyciad sydd yn cynnig cefnogaeth.

Nod y benthyciad yw sicrhau bod gan bobl gartref cynnes, saff, diogel ac effeithlon o ran ynni i fyw ynddynt.



Mae'r benthyciad wedi'i anelu yn bennaf at y rhai sydd wedi'u cyfyngu gan ffynonellau eraill o gyllid.

### **Pwy all wneud cais?**

Mae'n rhaid i chi fod yn berchen ac yn byw yn yr eiddo, neu'n bwriadau byw yno. Gallai enghreifftiau o waith cymwys gynnwys:

- Gwaith trydan
- Atgyweirio'r to neu osod to newydd
- Ceginau ac ystafelloedd ymolchi
- Gwaith i ddatrys problem tamprwydd yn yr eiddo
- G welliannau Arbed Ynni, megis bwyler newydd ac Gwelliannau Arbed Ynni, megis bwyler newydd ac inswleiddio.

### **Sut mae'r benthyciad i berchen-feddiannydd yn gweithio?**

Diogelir y benthyciad gyda phridiant cyntaf neu ail bridiant yn erbyn yr eiddo am oes y benthyciad. Yn amodol ar asesiad benthyciad i werth, caiff y benthyciad ei sicrhau trwy osod pridiant ar yr eiddo sy'n cael ei wella; fodd bynnag, efallai y bydd y pridiant yn cael ei warantu yn erbyn eiddo arall os oes angen.

Bydd yr holl arian yn cael ei dalu i chi yn amodol ar dderbyn anfoneb(au) contractwr(wyr) a chaiff ei dalu ar gyfnodau a gytunwyd ymlaen llaw neu pan gwblheir y gwaith.

Sylwch y bydd yn rhaid i chi reoli'r prosiect eich hun, yn cynnwys ceisio dyfynbrisiau cystadleuol gan mai dim ond cyllid y mae Cyngor Sir y Fflint yn ei ddarparu, ac ni fydd yn gyfrifol am wirio ansawdd y gwaith.

**Gallech gael benthyciad di-log rhwng £1,000 a £25,000 fesul eiddo.**

### **Ffioedd**

Mae benthyciadau yn amodol ar ffi weinyddol o £500, i dalu am ein costau i weinyddu'r benthyciad, gellir talu hwn ymlaen llaw neu ei ychwanegu at y benthyciad.

Fe gynhelir asesiadau fforddiadwy i sicrhau y gallwch dalu addaliadau'r benthyciad. Fe allai hyn gynnwys ymchwiliad i statws eich credyd hefyd.

Sylwch fod y benthyciadau yma yn ddewisol, ni all CSFf warantu y byddwch yn cael cynnig y benthyciad hyd nes eich bod yn derbyn hysbysiad ffurfiol fod eich cais wedi'i gymeradwyo.

Nid oes unrhyw ffi am ad-dalu'r ffioedd na'r benthyciad ymlaen llaw neu'n gynnar.

### **Pa mor fuan y mae'n rhaid ad-dalu'r benthyciad?**

Mae'r benthyciad yn ad-daladwy dros gyfnod o saith mlynedd (84 mis).

### **Sut ydw i'n gwneud cais?**

Os oes gennych chi ddiddordeb ymgeisio am Fenthyciad i Berchenfeddiannydd llenwch ffurflen "Mynegiant o Ddiddordeb Benthyciad i Berchen-feddiannydd" o wefan CSFf.

Bydd y Swyddog Grantiau Adfywio yn adolygu'r wybodaeth rydych wedi'i chyflwyno ac yn cysylltu â chi i gadarnhau a ellir bwrw ymlaen â'ch cais neu beidio.

Gallwch hefyd e-bostio eich ffurflen mynegiant o ddiddordeb wedi'i llenwi i ni neu gysylltu â ni gydag unrhyw ymholiad neu i gael rhagor o wybodaeth:- [home.loans@flintshire.gov.uk](mailto:home.loans@flintshire.gov.uk)



- Ni all y benthyciad a gynigir a morgais yr eiddo fod dros 80% o werth yr eiddo gyda'i gilydd. Mae hyn yn golygu os yw eich eiddo werth £100,000 a bod y morgais yn £75,000, dim ond uchafswm o £5,000 y gallwch chi ei fenthbyg.
- Mae'n bosibl y gallwn ofyn am brisiad RICS er mwyn tystio i werth yr eiddo.
- Os nad yw'r benthyciad yn talu am gost lawn y gwaith, yna byddwn yn gofyn i chi roi tystiolaeth o sut byddwch yn talu am y gwaith sy'n weddill.
- Bydd eich cais yn symud ymlaen os yw'r gwaith rydych wedi'i restru ar y ffurflen mynegiant o ddiddordeb yn addas am fenthyciad o dan feini prawf Llywodraeth Cymru a bod gennych ddarn o'r Gofrestrfa Tir sydd yn cadarnhau mai chi yw perchennog/perchnogion yr eiddo.
- Wrth gwblhau'r ffurflen gais am fenthyciad, bydd gofyn i chi gyflenwi rhagor o wybodaeth fanwl, gan gynnwys tystiolaeth i'n caniatáu i gwblhau asesiad ariannol.
- Bydd angen dogfennau cefnogol yn y cam ymgeisio - prawf o incwm, yswiriant adeilad, cyfriflenni banc ac ati. Byddwch yn cael eich cynghori ar ba ddogfennaeth sydd ei angen gan y Swyddog sy'n prosesu eich cais.
- Caiff ffurflenni wedi'u llenwi eu dychwelyd i'r Swyddog Grantiau Adfywio, yn cynnwys dau ddyfynbris cymharol ar gyfer y gwaith gwelliannau a fwriedir.
- Byddwch yn cael eich asesu'n ariannol i sicrhau fod swm y benthyciad rydych chi'n gwneud cais amdano yn fforddiadwy i chi.
- Byddwch yn cael cynnig benthyciad os ydych chi'n pasio'r asesiad fforddiadwyedd. Bydd eich cynnig o fenthyciad yn cynnwys eich ffigur addalu misol.
- Unwaith rydych wedi arwyddo a chyflwyno'r ffurflenni Cytundeb Benthyciad Berchen-feddiannydd a Phrudiant Cyfreithiol, bydd ffi yn cael ei ddiogelu yn erbyn eich eiddo. Pan mae hyn wedi cael ei gwblhau, byddwch yn derbyn llythyr cymeradwyo i gadarnhau bod y benthyciad yn ddilys.
- Pan gaiff y benthyciad ei gymeradwyo'n ffurfiol gallwch drefnu dyddiad cychwyn gyda'r contractwr y byddwch yn ei ddewis.
- Gellir tynnu o'r benthyciad mewn camau ac/neu ar ôl cwblhau'r gwaith.

- Er mwyn tynnu o'r taliad, fe ofynnir i chi anfon anfoneb gan y Contractwyr i'r Swyddog Grantiau Adfywio, gan ddangos tystiolaeth o ddatblygiad y gwaith.
- Pan fydd y taliad terfynol wedi'i roi fe all swyddog o Gyngor Sir y Fflint ymweld â'r eiddo a chadarnhau bod y gwaith wedi cael ei wneud.

### **Beth sy'n digwydd os ydw i'n newid fy meddwl ac yn canslo fy nghais am fenthyciad?**

Gallwch ganslo eich cais am fenthyciad unrhyw bryd.

Nodwch: Os ydych chi'n canslo eich cais pan gytunwyd ar fenthyciad ac mae ffi wedi'i roi ar yr eiddo, byddwn yn codi ffi weinyddol. Os yw'r benthyciad wedi cael tynnu unrhyw arian, yna bydd angen talu ffi ad-dalu.

#### **Hysbysiad Preifatrwydd**

Bydd Cyngor Sir Y Fflint yn defnyddio'r wybodaeth yr ydych yn ei ddarparu, a ofynnir ar y ffurflen, ac unrhyw dystiolaeth gefnogol yr ydych yn ei ddarparu i asesu eich cymhwysedd ar gyfer Benthyciad i Berchen-feddiannydd neu Gymorth Ariannol Ad-daladwy. Mae hyn yn ofynnol dan Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Cedwir y wybodaeth hon yn ddiogel ar system Cyngor Sir y Fflint am gyfnod o 3 mis. Os nad ydych yn gymwys, neu ddim yn dymuno cyflwyno cais llawn, bydd y ffurflen hon yn cael ei dinistrio ar ôl 3 mis.

Os symudir ymlaen â'r cais llawn, bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw'n ddiogel ar system Cyngor Sir y Fflint. Ar gyfer ceisiadau nad ydynt yn cael eu cymeradwyo, fe'u cedwir am gyfnod o 12 mis. Ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu cymeradwyo ar gyfer y benthyciad hwn, byddant yn cael eu cadw am isafswm o 5 mlynedd yn dilyn ad-dalu'r benthyciad yn llawn, fel y nodir o fewn y telerau ac amodau sydd yn ffurfio rhan o gytundeb y benthyciad gyda Chyngor Sir y Fflint.

Gall Cyngor Sir Y Fflint wirio neu rannu'r wybodaeth yr ydych chi neu rywun arall wedi'i ddarparu, gyda sefydliadau eraill megis: Cofrestrfa Tir EF, eich banc neu roddwr benthyciadau credyd. Mae hyn yn ofynnol dan gytundeb Deddf Grantiau, Adeiladu ac Adfywio 1996. Os ydych chi'n teimlo bod Cyngor Sir y Fflint wedi camdefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy fynd i'w gwefan neu ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.



I gael rhagor o wybodaeth am sut mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, edrychwch ar yr hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan -

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx>